



Adolygiad Dilynol o Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2015

Cyhoeddwyd: Ionawr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 691A2015

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol.

Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Philip Jones, Gabrielle Smith a Carol Moseley.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau'r prosesau dogfennaeth a gwybodaeth i gleifion ymhellach, i ehangu'r dewis o brydau bwyd, sicrhau hyfforddiant rheolaidd a lleihau'r bwlch rhwng cost ac incwm arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion.

Adroddiad cryno

Cefndir	4
Ein prif ganfyddiadau	5
Argymhellion	7

Adroddiad manwl

Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion wedi gwella, ond mae angen cryfhau hyfforddiant, prosesau dogfennaeth a gwybodaeth i gleifion	9
Ceir amrywiaeth briodol o ddewisiadau ar y fwydlen i'r mwyafrif o gleifion ac mae profiadau cleifion o amser bwyd yn dda ar y cyfan	15
Mae costau arlwygo i gleifion wedi aros tua'r un faint, mae'r gost fesul pryd bwyd claf yn cymharu'n dda â chyrrff GIG eraill ac mae gwastraff bwyd yn is na'r targed cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled	19
Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar wasanaethau arlwygo a maeth mewn ysbytai yn gadarn ar y cyfan	26

Atodiadau

Dull archwilio	31
Argymhellion lleol a chenedlaethol	33

Adroddiad cryno

Cefndir

1. Mae gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion. Mae pryddau bwyd maethlon, o safon, yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyio effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgyssylltu nifer o brosesau'n gadarn gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu pryddau bwyd i wardiau a chleifion. Mae hefyd angen cyfathrebu da ar draws yr amrywiaeth o grwpiau staff, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyio, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Mae angen i statws maethol cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n briodol, ac mae angen rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwynhau eu pryddau mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer bwyta. Dylai gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai fod yn gost-effeithiol ac yn ddigon hyblyg i gynnig dewis da o bryddau maethlon a all ddarparu ar gyfer gofynion a dewisiadau deietegol penodol cleifion.
3. Yn 2010, aethom ati i gynnal archwiliadau o wasanaethau arlwyio a maeth cleifion mewn ysbytai lleol ledled Cymru, i ddilyn y gwaith a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yn 2002¹. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad², yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith hwn. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, yr oedd trefniadau arlwyio a gofal maeth ar gyfer cleifion wedi gwella'n gyffredinol, ac roedd boddhad cleifion yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod arfer da cydnabyddedig yn cael ei weithredu'n ehangach, yn enwedig o safbwynt sgrinio maethol a chynllunio gofal, a sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau. Yn 2014, gwnaethom archwiliad dilynol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ac adroddwyd ar y cynnydd a wnaed mewn cysylltiad â'r argymhellion lleol a gyflwynwyd gennym yn 2010.
4. Yn ystod yr hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Safonau Maeth ac Arlwyio Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai**. Mae'r safonau hyn wedi disodli fframwaith maeth ac arlwyio 2002 ac maent yn darparu canllawiau technegol i staff sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maethol cleifion³. Mae'r safonau hefyd yn nodi'r maetholion sydd eu hangen i ddiwallu anghenion amrywiol poblogaeth ysbytai. Roedd hi'n ofynnol i gyrrff y GIG gydymffurfio'n llawn â'r safonau erbyn mis Ebrill 2013.
5. I helpu i roi'r safonau ar waith, bu arlwywyr a deietegwyr o bob cwr o Gymru yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu'r Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan (AWMF), a lanswyd ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o set gytunedig o eitemau, set safonedig o ryseitiai a dulliau coginio,

¹ Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, Portffolio Ysbytai Aciwt – Adolygiad o ganfyddiadau cenedlaethol ar arlwyio, Mawrth 2002.

² Swyddfa Archwilio Cymru, [Arlwyio a Maeth Cleifion Mewn Ysbytai](#), Mawrth 2011.

³ Nod y safonau maeth ac arlwyio yw diwallu anghenion maethol cleifion sy'n gallu bwyta ac yfed. Nid yw cleifion sy'n derbyn maeth drwy'r gwythiennau neu'r ymysgaroedd yn cael eu cwmpasu gan y safonau hyn.

dadansoddiad maethol o bob eitem ac amrywiaeth o fyrbrydau sy'n cydymffurfio â'r safonau ac sy'n cael eu caffael trwy gontractau Cymru gyfan.

6. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynnal diddordeb brwd yn y materion a nodwyd yng ngwaith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gofnodi tystiolaeth gan dystion a chyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2012⁴. Yn 2014, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'n cyflawni gwaith dilynol priodol i fonitro sut mae cyrff y GIG wedi rhoi ei argymhellion lleol a chenedlaethol ar waith. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys ystyried canfyddiadau unrhyw waith dilynol a gyflawnwyd yng nghyrrff y GIG ers 2010.

Ein prif ganfyddiadau

7. Roedd ein gwaith dilynol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn 2015 yn asesu i ba raddau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi rhoi argymhellion cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar waith⁵. Aseswyd hefyd i ba raddau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed fel rhan o'r archwiliad lleol yn 2010 ac eto yn 2014.
8. Nododd adroddiad Ymddiried mewn Gofal 2015⁶ gynnydd ardderchog yn erbyn yr argymhelliaid i wella arferion o ran hydradu, symud a bwydo cleifion hŷn, ac i gyhoeddi canlyniadau archwilio bob chwarter. Croesawodd y tîm adolygu'r ffordd yr oedd cyhoeddi'r canlyniadau wedi helpu i ysgogi gwelliant.
9. Daethom i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol. Mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau ymhellach brosesau dogfennaeth a gwybodaeth i gleifion, ehangu'r dewis o brydau bwyd, sicrhau hyfforddiant rheolaidd a lleihau'r bwch rhwng cost ac incwm arlwyo'r rhai nad ydynt yn gleifion. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y rhesymau canlynol:
 - Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion wedi gwella, ond mae angen cryfhau hyfforddiant, prosesau dogfennaeth a gwybodaeth i gleifion:
 - caiff cleifion eu sgrinio fel mater o drefn pan gânt eu derbyn, ond mae rhywfaint o anghysondeb yn parhau o ran cynllunio gofal, ail-sgrinio a dogfennaeth;
 - caiff y llwybr gofal maethol ei fonitro fel mater o drefn, ond mae angen dull systematig o ddarparu hyfforddiant ar faeth, hydradu a diogelwch bwyd;
 - mae'r trefniadau cyfredol yn helpu cleifion i gael bwyd a diod 24 awr y dydd ac mae mecanweithiau'n bodoli i fonitro cydymffurfiaeth;

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Chwefror 2012.

⁵ Amlinellir ein dull archwilio yn **Atodiad 1**. Mae cwmpas y gwaith archwilio yn ymwneud yn benodol â chleifion sy'n gallu bwyta ac yfed yn normal.

⁶ [Ymddiried mewn Gofal – Adolygiad 2015](#).

-
- caiff eitemau ar y fwydlen eu hasesu'n faethol trwy Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â hwn ar y cyfan. Mae adnoddau wedi'u dyrannu i ddadansoddi maeth yn lleol; ac
 - mae'r wybodaeth ysgrifenedig am yr hyn y gall cleifion ei ddisgwyl o ran gwasanaethau arlwyo bwyd a maeth yn parhau i fod yn amrywiol.
 - Ceir amrywiaeth briodol o ddewisiadau ar y fwydlen i'r mwyafrif o gleifion ac mae profiadau cleifion o amser bwyd yn dda ar y cyfan:
 - mae lefel y cymorth a'r goruchwyllo gan nyrsys yn dda ar y cyfan yn ystod amserau bwyd;
 - mae amserau bwyd gwarchodedig wedi'u sefydlu'n dda ac mae amserau ymweld hyblyg yn galluogi teulu a ffrindiau i helpu i roi cymorth i gleifion yn ystod amserau bwyd; ac
 - mae profiad cleifion o amser bwyd yn dda ar y cyfan ac mae amrywiaeth briodol o ddewisiadau ar y fwydlen i'r mwyafrif o gleifion, ond mae rhywfaint o sgôp ar gyfer ehangu'r dewis o brydau bwyd.
 - Mae costau arlwyo i gleifion wedi aros tua'r un faint, mae'r gost fesul pryd bwyd claf yn cymharu'n dda â chyrrff GIG eraill ac mae gwastraff bwyd yn is na'r targed cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled:
 - er bod cost gwasanaethau arlwyo i gleifion wedi amrywio ychydig, mae'r gost fesul pryd bwyd claf yn cymharu'n ffafriol â chyrrff eraill y GIG;
 - mae lefelau'r gwastraff bwyd wedi lleihau ac maent bellach o dan y targed cenedlaethol; ac
 - mae gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled ac mae'r bwch rhwng incwm a chost yn cynyddu;
 - Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar wasanaethau arlwyo a maeth mewn ysbytai yn gadarn ar y cyfan:
 - Mae'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyo yn sicrhau bod polisiâu a safonau cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith, ond gallai newidiadau sefydliadol effeithio ar drefniadau cyfredol ac mae'r cyfrifoldeb gweithredol dros arlwyo yn llai eglur nag yr oedd bum mlynedd yn ôl;
 - mae mecanweithiau ar waith i gael adborth gan gleifion ar arlwyo a maeth ac i weithredu ar yr adborth hwn; ac
 - mae trefniadau corfforaethol da wedi'u sefydlu i fonitro'r llwybr gofal maeth, ond ni welir cymaint o wybodaeth am wastraff, cost ac ansawdd bwyd.

10. Mae canfyddiadau manwl o'r gwaith archwilio wedi'u crynhoi yng nghorff yr adroddiad hwn.

Argymhellion

11. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni 25 o'r 44 o argymhellion a amlinellwyd yn ein hadroddiadau cenedlaethol a lleol ac mae'n gwneud cynnydd yn erbyn y 18 arall. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar roi gweddill yr argymhellion ar waith lle nodir bod cynnydd yn cael ei wneud ond nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau, neu lle rydym o'r farn nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud, os o gwbl. Caiff y materion allweddol a nodwyd yn 2015 eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**, ynghyd â chyfeiriadau i'r argymhellion perthnasol. Nodir rhestr lawn o'r argymhellion cenedlaethol a lleol, ynghyd â statws pob un, yn **Atodiad 2**.

Arddangosyn 1: Materion allweddol a nodwyd yn 2015

Argymhelliad	Materion allweddol yn 2015
Sicrhau bod anghenion maeth cleifion yn cael eu diwallu	
2010 A10/2011 A1b/d	Cysondeb ail-sgrinio ac ansawdd dogfennau
2010 A9 / 2011 A1d / 2014 A3	Gwella hyfforddiant: cydymffurfio ag e-ddysgu, hyfforddiant rheolaidd a darparu hyfforddiant ar ddiogelwch bwyd
2010 A14 / 2014 A4	Gwella'r wybodaeth i gleifion, gan ddilyn esiampl Ysbyty Tywysoges Cymru
Gwella profiadau cleifion o amser bwyd	
2011 3a	Ehangu'r dewis o brydau bwyd pan na fydd y trefniadau'n cynnig digon o ddewis
2010 A2 / 2011 8B	Cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r model coginio-rhewi fel yr unig ddull o gynhyrchu bwyd
Rheoli costau'r gwasanaeth arlwy	
2011 A7a/b	Mynd i'r afael â'r bwlch rhwng cost ac incwm wrth ddarparu gwasanaethau arlwy i'r rhai nad ydynt yn gleifion
2014 A2	Asesu effaith y safleoedd gwerthu bwyd preifat newydd yn Nhreforys ar broffidioldeb y gwasanaeth arlwy i'r rhai nad ydynt yn gleifion a pholisi cymhorthdal yn y dyfodol
Cynllunio a monitro gwasanaethau yn effeithiol	
2011 A8b	Asesu effaith bosibl newidiadau sefydliadol ar aelodaeth a gweithrediad y Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwy ac is-grwpiau
2011 8b	Yng nghyd-destun bodloni safonau gofal i bobl hŷn, adolygu sut mae'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwy yn rhyng-gysylltu â grwpiau eraill sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i ofal pobl hŷn, a darparu sicrwydd ar y safonau hyn.
2011 A8c	Egluro lleoliad a llinellau adrodd gwasanaethau cymorth o fewn y strwythurau sefydliadol newydd a'r cyfrifoldeb gweithredol am y gwasanaethau hyn

Argymhelliad**Materion allweddol yn 2015****Cynllunio a monitro gwasanaethau yn effeithiol**

2010 A1 / 2011 A10a

Ystyried manteision adroddiad ar y cyd i ddarparu darlun cyfunol o berfformiad a dynnwyd o adroddiadau monitro amrywiol

2011 A10a

Gwella'r wybodaeth a welir ar lefel gorfforaethol am wastraff bwyd, costau gwasanaethau arlwyo ac ansawdd bwyd

2011 A10b

Casglu gwybodaeth sgrinio er mwyn asesu nifer y cleifion a gaiff eu derbyn sydd angen cymorth maethol.

Adroddiad manwl

Mae'r trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion wedi gwella, ond mae angen cryfhau hyfforddiant, prosesau dogfennaeth a gwybodaeth i gleifion

12. Yn 2010, roedd llawer o ysbytai yng Nghymru wedi gwella eu trefniadau i sicrhau bod anghenion maethol cleifion yn cael eu diwallu, ond roedd gwybodaeth yn dameidiog ac nid oedd yn galluogi trosolwg cyflym o broblemau maethol cleifion nac adolygiad rhwydd o statws maethol cleifion. Efallai bod y diffyg dogfennau nyrsio safonedig i gofnodi gwybodaeth asesu allweddol wedi cyfrannu at yr amrywiad yn ansawdd y cofnodion nyrsio. Nid oedd pob un o gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn rheolaidd.
13. Yn y Bwrdd Iechyd yn 2010, canfuwyd bod cleifion yn gyffredinol yn cael eu sgrinio am risg maethol wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty, ond roedd yr wybodaeth a gofnodwyd fel rhan o'r broses sgrinio yn anghyflawn yn aml. Roedd gormod o gleifion a oedd mewn perygl o ddiffyg maethiad heb gynllun gofal ar waith, ac nid oedd nifer bychan o gleifion a oedd mewn perygl uchel o ddiffyg maethiad yn cael eu hatgyfeirio am asesiad deietegol.
14. Erbyn 2014, roedd gwell cydymffurfiaeth ynghylch sgrinio maethol cleifion o fewn 24 awr i gael eu derbyn ac roeddent yn sgrinio dros 90 y cant yn gyffredinol. Ond roedd cyfran y cleifion a oedd yn cael eu hail-sgrinio ar gyfnodau priodol yn llawer is. Gwelwyd hefyd fylchau amlwg yn yr wybodaeth am iechyd y geg a deiet bwyd arferol cleifion, ac nid oedd cynlluniau gofal maethol ar waith bob amser i'r cleifion hynny oedd eu hangen. Nodir ein canfyddiadau yn 2015 isod.

Caiff cleifion eu sgrinio fel mater o drefn pan gânt eu derbyn, ond mae rhywfaint o anghysondeb yn parhau o ran cynllunio gofal, ail-sgrinio a dogfennaeth

15. Roedd y gwnaeth a wnaethom yn 2015 yn cynnwys adolygu pum set o nodiadau achos ar bob un o'r pedair ward y gwnaethom ymweld â nhw fel rhan o'r archwiliad, 20 o nodiadau achos i gyd. Aseswyd a oedd staff nyrsio yn defnyddio offeryn asesu maethol dilys i sgrinio cleifion pan oeddent yn cael eu derbyn ac yn ailadrodd y broses o leiaf unwaith yr wythnos, ac aseswyd hefyd ansawdd y broses sgrinio maethol. Gwnaethom edrych yn benodol am yr wybodaeth y byddem yn disgwyl ei gweld fel rhan o'r broses derbyn a sgrinio, fel pwysau, colli pwysau'n anfwriadol yn ddiweddar, archwaeth presennol, deiet bwyd 'arferol', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau bwyta neu yfed a phroblemau ag iechyd a hylendid y geg, gan gynnwys datblygiad y dannedd.

-
16. Canfu ein hadolygiad o'r nodiadau achos bod 20 o gleifion wedi cael eu sgrinio gyda'r Offeryn Sgrinio Oedolion am Risg Maethol (NRAST) pan gawsant eu derbyn, ac er nad oedd hi'n bosibl pwyso pump o'r cleifion, dyfalwyd eu pwysau. Cyfrifwyd sgôr risg maethol ar gyfer yr ugain claf.
 17. Cafodd asesiadau swyddogaethol a oedd yn rhan o'r broses sgrinio maeth eu cwblhau yn gyson, ond nid yw'r ddogfennaeth yn ei gwneud hi'n hawdd gwahaniaethu rhwng gallu gwybyddol a ffisegol cleifion i fwyta ac yfed, a'u gallu i eistedd i fyny heb gymorth i wneud hynny. Nid oedd unrhyw nodiadau achos claf a adolygwyd gennym yn cynnwys gwybodaeth am ddewisiadau a gofynion deietegol cleifion na'u deiet bwyd arferol, ond roedd yr wybodaeth ar gael y tu allan i'r nodyn achos ffurfiol mewn un maes clinigol a gefnogwyd gan weinyddes ward.
 18. Mae'r Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan yn ei gwneud hi'n glir bod iechyd y geg a chyfathrebu yn rhan o ofal maethol. Yn 2010 ac eto yn 2014, canfuwyd mai ychydig iawn o gleifion oedd wedi cael asesiad ysgrifenedig ar iechyd y geg. Gwelodd ein hadolygiad nodiadau achos diweddaraf welliant amlwg mewn asesiadau iechyd y geg, gyda phob un o'r 20 nodyn achos yn cynnwys asesiad. Er mai sampl bach o nodiadau achos sydd gennym, mae'n dangos gwelliant pellach yn erbyn archwiliad 2014 y Bwrdd Iechyd, Hanfodion Gofal⁷, a oedd yn dangos mai tri chwarter y cleifion oedd yn cael asesiad o iechyd y geg.
 19. Yn adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar gyfer 2014-15, adroddwyd bod arsylwadau a gynhaliwyd yn ystod yr Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol yn nodi ymyriadau gofal rheolaidd gan staff. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth ysgrifenedig am ofal bob amser yn cefnogi hyn, ac roedd dull anghyson o gwblhau dogfennau gofal ac asesu risg yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty.
 20. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu dull asesu nyrsio integredig a dogfennau cefnogol i hyrwyddo asesiadau nyrsio cyfannol, nodi cleifion sydd angen asesiadau risg mwy manwl a bwndeli gofal, ac i fynd i'r afael â'r amrywiaeth yn safon y dogfennau. Mae'r dull hwn, sy'n cynnwys sgrinio maethol perthnasol, wedi cael ei dreialu, a dogfennau nyrsio diwygiedig wedi'u cyflwyno'n ddiweddar. Mae trefniadau ar waith i fonitro safon y gwaith cwblhau a dylai helpu'r Bwrdd Iechyd i wneud gwelliannau parhaus i gysondeb ac ansawdd asesiadau nyrsio a safonau'r ddogfennaeth.
 21. Er bod 15 o'r 20 claf wedi bod yn yr ysbyty yn ddigon hir i gael ail-sgriniad maethol, canfu ein hadolygiad o nodiadau achos mai dim ond wyth oedd wedi cael eu hailasesu ar bapur. Canfu hefyd rai materion a oedd yn dal i fodoli o ran defnyddio cynlluniau gofal a siartiau bwyd a diod. Roedd angen cynllun gofal maeth ar ddeuddeg o'r ugain claf. Roedd cynlluniau gofal ar waith i 10 o'r cleifion hyn a chafodd 11 ohonynt eu hatgyfeirio at ddeietegydd. Defnyddiwyd siartiau maeth a hydradu yn gyson ar gyfer y cleifion hynny a oedd mewn perygl uchel o gael problemau maethol, ond roedd

⁷ Cwblhawyd yr Archwiliad Hanfodion Gofal yn y Bwrdd Iechyd rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2014.

bylchau yn y cofnodion ac o ran llofnodion. Daeth archwiliad Hanfodion Gofal 2014 hefyd o hyd i fylchau o ran llofnodion ar siartiau bwyd a diod.

- 22.** Fel rhan o'n harchwiliad diweddaraf, adolygwyd sampl o adroddiadau cryno misol Hanfodion Gofal ar gyfer pum ward ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys y dangosyddion canlynol:
- canran y 'Sgôr Maeth wedi'i Chwblhau a Chamau Priodol wedi'u Cymryd' o fewn 24 awr i gleifion gael eu derbyn;
 - canran yr asesiadau risg maethol a ailadroddwyd o fewn amser penodol (o nifer y cleifion yr edrychwyd arnynt yn y sampl); a
 - chanran y cleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl cymedrol neu uchel sydd â siart fwyd a chynllun gofal ar waith
- 23.** Dengys yr adroddiadau bod cydymffurfiaeth yn uchel yn erbyn pob dangosydd yn gyffredinol, ac yn 100 y cant yn aml ar y pum ward hyn. Serch hynny, gwelwyd amrywiadau o ran cydymffurfio bob mis yn yr hyn a fyddai'n sgorau uchel fel arall ar rai o'r pum ward, yn ogystal â bylchau mewn data, sy'n awgrymu na chaiff gwaith monitro ei gwblhau'n gyson.

Caiff y llwybr gofal maethol ei fonitro fel mater o drefn, ond mae angen dull systematig o ddarparu hyfforddiant ar faeth, hydradu a diogelwch bwyd

- 24.** Yn 2010, nid oedd pob un o gyrrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan, ac yn 2011, argymhellwyd y dylai pob bwrdd iechyd sefydlu trefniadau rheolaidd i asesu cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr.
- 25.** Yn 2013, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd archwiliad maeth llawn i asesu'r gydymffurfiaeth yn erbyn pob elfen o Lwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan. Adroddwyd y canlyniadau i'r Penaethiaid Nyrsio sy'n gyfrifol am ddatblygu cynlluniau gweithredu. Er nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi ailadrodd yr archwiliad cyfan o'r llwybr, caiff elfennau o'r llwybr eu monitro'n rheolaidd trwy nifer o ddulliau, yn cynnwys metrigau gofal misol a adroddir i'r Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, archwiliadau dirybudd gan nyrsys uwch ac archwiliadau ar ddogfennau asesu nyrsys integredig.
- 26.** Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu safonau ar gyfer gofal pobl hŷn a dangosfwrdd i fesur dangosyddion perfformiad cysylltiedig. Mae safon pedwar yn ymwneud â maeth a hydradu, a chaiff tri maes allweddol eu monitro:
- gwelliant yn nifer y cleifion oedd angen help i fwyta ac yfed a ymatebodd yn gadarnhaol eu bod wedi derbyn help;
 - llai o gwynion ynghylch achosion 'dim trwy'r geg' y gellid eu hosgoi; a
 - gwelliant yn nifer y cleifion 80 oed a throsodd y nodwyd bod ganddynt broblem llyncu sydd â thystiolaeth o gynllun gofal cyfoes a gaiff ei werthuso a'i adolygu o fewn cyfnodau cytunedig.

-
27. Ym mis Medi 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn e-ddysgu ar gyfer defnyddio'r llwybr gofal maeth Cymru gyfan a siartiau bwyd a diod Cymru gyfan. Roedd yn rhaid i'r holl staff nyrsio ar wardiau gwblhau'r e-ddysgu o fewn 12 mis i'r dyddiad hwn, a staff newydd ei gwblhau o fewn 12 mis i gael eu penodi. Er bod cynnydd yn nifer y staff a oedd yn cwblhau'r model e-ddysgu, nodwyd yn 'Adroddiad Cynnydd a Diweddariad Blynnyddol ar Faeth ac Arlwygo Cleifion' y Bwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Ebrill 2015 mai 25 y cant yn unig oedd wedi cydymffurfio o'i gymharu â 23 y cant yn 2014.
 28. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi hyrwyddo ymwybyddiaeth o faeth a hydradu, er enghraifft, trwy ei safle mewnwyd a'r wythnos Maeth a Hydradu a gynhaliwyd rhwng 16 a 20 Mawrth 2015. Hefyd, ar gyfer staff sy'n gofalu am bobl hŷn bregus darparwyd pecyn hyfforddiant er mwyn cefnogi'r protocol 'dim trwy'r geg' newydd a chynyddu gwybodaeth a hyder o ran asesu problem llyncu.
 29. Fodd bynnag, ar hyn o bryd caiff hyfforddiant maeth a hydradu ehangach ei ddarparu yn unig fel rhan o broses ymsefydlu'r Bwrdd Iechyd, neu pan fydd adrannau neu wardiau penodol yn gofyn amdano. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli bod angen hyfforddiant mwy trylwyr a rheolaidd ac mae hyn wedi'i ddyrchafu'n faes risg oherwydd diffyg capasiti o fewn y Tîm Nyrsio Maethol a Deieteg. Yn ogystal â hyn, nid oes cynnydd wedi'i wneud o ran rhoi hyfforddiant i nyrsys ar ddiogelwch bwyd, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud hyd yma o ran ehangu'r gwaith o gyflwyno'r model arlwygo ar y wardiau (gweinyddesau). Mae angen mynd i'r afael â'r sefyllfa hon er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r trefniadau cyfredol yn helpu cleifion i gael bwyd a diod 24 awr y dydd ac mae mecanweithiau'n bodoli i fonitro cydymffurfiaeth

30. Yn 2010, canfuwyd bod gan y mwyafrif o ysbytai drefniadau ar waith i ddarparu byrbrydau, ond nododd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau bwyd. Nododd Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan y dylai byrbrydau gael eu cynnig ddwywaith neu dair gwaith y dydd gyda byrbrydau'n cael eu cynnig i bob claf gyda'r hwyr oherwydd yr amser hir rhwng swper a brecwast.
31. Yn 2014, canfu arolwg gweithredol Hanfodion Gofal y Bwrdd Iechyd fod 99 y cant o ardaloedd yn cadarnhau bod byrbrydau maethol ar gael i bob claf o'i gymharu â 91 y cant yn 2013. Credai cyfran fawr (87 y cant) o gleifion a ymatebodd i arolwg cleifion Hanfodion Gofal eu bod wedi cael byrbrydau maethol. Canfu Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol Arolygiaeth Gofal Cymru bod byrbrydau ar gael ar y wardiau yr ymwelwyd â nhw yn ystod 2014-15. Yn yr un modd, nododd adroddiad Ymddiried mewn Gofal 2015 fod cynnig byrbrydau yn un o'r mentrau a oedd o gymorth i fwydo cleifion hŷn yn briodol ar wardiau.
32. Dywedodd uwch staff arlwygo wrthym fod y Bwrdd Iechyd yn ceisio ehangu'r oriau y mae'r gwasanaethau prif brydau bwyd yn gweithio ar hyn o bryd er mwyn lleihau'r amserau cyffredinol rhwng prydau bwyd. Darperir y pryd bwyd olaf rhwng 5pm a 6pm ar hyn o bryd, a chynigir byrbrydau am 8 pm. Gall wardiau archebu byrbrydau bob

dydd ac mae'r rhan fwyaf o'r wardiau yn cadw cyflenwad da. Gall wardiau archebu bwyd yn ôl yr angen i ymateb i sefyllfaoedd fel derbyn cleifion newydd, cleifion yn dychwelyd o'r theatr, a gofynion deietegol arbennig.

33. Mae Safonau Maeth Cymru Gyfan ar gyfer bwyd a diod cleifion yn nodi bod angen cynnig saith i wyth diod boeth ac oer bob dydd, gosod jygiau dŵr o fewn cyrraedd cleifion a'u newid teirgwaith y diwrnod. Canfu archwiliad Hanfodion Gofal 2014 y Bwrdd Iechyd fod 91 y cant o ardaloedd clinigol wedi cadarnhau bod dŵr yfed ar gael i gleifion yn hawdd o fewn eu cyrraedd. Ond dim ond 60 y cant o ardaloedd wnaeth gadarnhau bod jygiau dŵr yn cael eu newid deirgwaith y diwrnod, er bod hwn yn uwch na'r 40 y cant yn 2013. 57 y cant yn unig o ardaloedd clinigol a gadarnhaodd fod saith diod neu fwy yn cael eu cynnig bob dydd, o'i gymharu â 72 y cant yn 2013.
34. Yn ystod ein hymweliadau ward yn 2015, roedd staff yn canolbwyntio ar fodloni'r safonau hyn, ond dywedwyd wrthym ei bod yn her i ddarparu saith i wyth diod i bawb a newid y jygiau dŵr deirgwaith y dydd. Gwelsom wahaniaeth positif mewn wardiau a oedd yn cael cymorth gweinyddes, lle'r oedd y weinyddes yn gallu helpu i wneud yn siŵr bod cleifion yn gallu cael bwyd, byrbrydau a diodydd trwy'r dydd. Mae gweinyddesau wedi cael eu cyflwyno mewn wardiau mewn nifer o ardaloedd ac mae'r adborth gan gleifion wedi bod yn gadarnhaol⁸. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cynigion yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig i gyflwyno gweinyddes fel rhan o fodel arlwyio ar wardiau. Fodd bynnag, mae problemau ehangach megis dod o hyd i adnodd yn mynd i amharu ar gyflymder sicrhau hyn.
35. Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o fecanweithiau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Maeth ac Arlwyio Cymru Gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau amlddisgyblaethol ar gyfer monitro prydau bwyd, cynnal arolygon o gleifion i fonitro eu profiadau o'r ddarpariaeth arlwyio a gwiriadau ar hap gan nyrsys uwch.

Caiff eitemau ar y fwydlen eu hasesu'n faethol trwy Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â hwn ar y cyfan. Mae adnoddau wedi'u dyrannu i ddadansoddi maeth yn lleol

36. Yn 2010, canfuwyd bod deietegwyr yn gysylltiedig â'r gwaith o gynllunio bwydlenni ym mhob ysbyty, ond nid oedd pob bwydlen ysbyty yn cael ei hasesu'n faethol. Yn y Bwrdd Iechyd, nid oedd pob rysâit lleol yn cael ei asesu'n faethol a'i ddilysu gan ddeietegwyr oherwydd diffyg adnoddau deietegol yn bennaf. Yn 2014, canfuwyd nad oedd ymdrechion i ddatrys y sefyllfa wedi bod yn llwyddiannus. Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Safonau Maeth ac Arlwyio Cymru Gyfan sy'n nodi'r 12 maetholyn gofynnol sydd angen eu dadansoddi.

⁸ Mae arolygon misol o brofiadau cleifion o arlwyio yn nodi adborth positif am staff gwesty'r gwasanaeth yn y wardiau hynny lle ceir gweinyddesau.

-
37. Yn 2015, mae'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gael gafael ar adnoddau i recriwtio deietegydd rhan-amser am 12 mis, o fis Gorffennaf 2015 ymlaen. Bydd y penodiad yn gefnogol i asesiad maethol bwydlenni a ryseitiau lleol. Bydd deiliad y swydd hefyd yn gyfrifol am gwblhau dadansoddiad o fwydlenni therapiwtig, sy'n flaenoriaeth allweddol yng nghynllun gweithredu arlwygo a maeth 2015 y Bwrdd Iechyd.
38. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y cyfan yn cydymffurfio â Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan (y Fframwaith Bwydlenni), ac, yn ystod cyfnod ein gwaith maes, dim ond un rysâit o'r cynllun bwydlen lleol oedd ddim yn cydymffurfio. Caiff holl ryseitiau'r Fframwaith Bwydlenni eu hasesu'n faethol ac roedd yr un rysâit lleol nad oedd yn cydymffurfio wedi cael ei gyflwyno i'r grŵp bwydlen Cymru Gyfan i'w gynnwys yn y Fframwaith Bwydlenni. Mae staff arlwygo'r Bwrdd Iechyd yn gweithio'n ddiwyd gyda'r grŵp bwydlen Cymru Gyfan i addasu a datblygu bwydlenni a ryseitiau ar gyfer y Fframwaith Bwydlenni.

Mae'r wybodaeth ysgrifenedig am yr hyn y gall cleifion ei ddisgwyl o ran gwasanaethau arlwygo bwyd a maeth yn parhau i fod yn amrywiol

39. Mae Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan 2011 yn ei gwneud hi'n glir y dylid darparu gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr am yr hyn y dylent ei ddisgwyl o ran prydau a byrbrydau yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Yn 2012, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth bwyd ac arlwygo mewn ysbytai gan ofyn i gyrrff y GIG ddarparu i gleifion yr wybodaeth a amlinellir yn nhaflen yr Archwilydd Cyffredinol, **Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty – Yr hyn y Dylech ei Ddisgwyl**.
40. Yn 2010, canfuwyd nad oedd yr wybodaeth a ddarparwyd i gleifion am ddewisiadau bwyd ac amserau bwyd yn gyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Canfu ein gwaith dilynol yn 2014 bod y bwydlenni a ddarparwyd i gleifion yn amrywiol ac yn edrych fel petaent wedi dirywio ers ein gwaith yn 2010, gyda nyrsys a staff arlwygo ar wardiau yn darllen y dewisiadau bwyd i gleifion yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd. Yn 2014, roedd y gwasanaeth arlwygo wrthi'n datblygu gwybodaeth i'w rhoi yn ymyl y gwelyau a oedd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am y bwyd oedd ar gael, gan gynnwys bwydlenni. Ym mis Ebrill 2015, roedd ymgynghori'n digwydd ar fwydlenni yn ymyl gwelyau cyn iddynt gael eu cyflwyno. Mae bwydlen yn ymyl y gwely yn rhoi canllaw clir i gleifion ar y prydau bwyd sydd ar gael ac yn rhoi cyfle iddynt benderfynu drostynt eu hunain ar eu dewisiadau dyddiol.
41. Mae'r wybodaeth a'r cyngor i gleifion sy'n dod i'r ysbyty, sydd ar wefan y Bwrdd Iechyd, yn cynnwys adran ar fwyd, y ddarpariaeth arlwygo gyffredinol a help gyda bwyta ac yfed os bydd angen. Mae'n ddefnyddiol ac yn addysgiadol, ond ni fydd pob claf wedi gweld yr wybodaeth hon cyn iddynt gyrraedd yr ysbyty ac nid oedd ar gael ar ffurf taflen ar y wardiau y gwnaethom ni eu harsylwi. Nid oedd staff y wardiau, yr uwch staff na'r staff nad oeddent yn gweithio yn y swyddfa bob amser yn gyfarwydd â'r daflen Bwyta'n Dda yn yr Ysbyty. Roedd rhywfaint o wybodaeth am arlwygo ar hysbysfyrdau mewn rhai wardiau, ond roedd hyn yn amrywio o un ward i'r llall.

-
42. Pan wnaethom ein gwaith maes yn 2015, roedd llawlyfr newydd ar fin cael ei gyhoeddi i gleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am fwyd, byrbrydau, bwyta'n dda a chymorth i fwyta ac yfed. Ond mae'r wybodaeth a ddarperir i gleifion am wasanaethau bwyd ac arlwygo yn dal i fod yn anghyson ar draws safleoedd eraill, ac nid oes gwybodaeth i gleifion mewn un fformat neu un fersiwn. Fel rhan o sefydlu'r unedau gweithredol newydd mewn ysbytai, mae cyfle i ddatblygu pecynnau gwybodaeth i gleifion mewn ysbytai eraill, fel y gwnaed i Ysbyty Tywysoges Cymru.

Ceir amrywiaeth briodol o ddewisiadau ar y fwydlen i'r mwyafrif o gleifion ac mae profiadau cleifion o amser bwyd yn dda ar y cyfan

43. Yn 2010, roedd y rhan fwyaf o ysbytai yn darparu dewis priodol o brydau ac roedd cleifion yn fodlon ar y cyfan â'r bwyd yr oeddent yn ei dderbyn. Fodd bynnag, nid oedd pob claf yn cael yr help yr oedd ei angen arno yn ystod amser bwyd a gellid gwneud mwy i roi egwyddorion amseroedd bwyd gwarchoddedig ar waith ar rai wardiau. Roedd amserau bwyd gwarchoddedig ar waith yn y Bwrdd Iechyd, ond roedd wardiau yn amrywio o ran sut yr oedd egwyddorion amser bwyd yn cael eu dilyn. Yn gyffredinol, roedd staff yn rhoi'r cymorth priodol i gleifion fwyta ac yfed yn ystod amserau bwyd.
44. Yn 2014, gwelwyd o'n harsylwadau amser bwyd ar y wardiau nad oedd y gydymffurfiaeth ag amrywiol elfennau o amserau bwyd gwarchoddedig yn gyson bob amser. Fodd bynnag, canfuwyd bod y defnydd o fyrddau gwyn mewn llawer o wardiau yn helpu i nodi anghenion deietegol cleifion, ac roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno hyrwyddwyr gofal maethol ar wardiau i gefnogi'r agwedd hon ar ofal y claf. Nodir ein canfyddiadau o archwiliad 2015 isod.

Mae lefel y cymorth a'r goruchwylio gan nyrsys yn dda ar y cyfan yn ystod amserau bwyd

45. Canfu adroddiad Ymddiried mewn Gofal 2015 welliannau sylweddol yn yr arferion hydradu a bwydo i bobl hŷn. Fel rhan o'n gwaith, arsylwyd ar wasanaeth pryd bwyd amser cinio mewn pedair ward – un ward ym mhob un o'r pedwar ysbyty cyffredinol dosbarth (Tywysoges Cymru, Castell-nedd Port Talbot, Singleton a Threforys). Canfuwyd bod y cymorth a ddarperir wrth fwydo cleifion yn dda ar y cyfan.
46. Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o fecanweithiau ar waith i nodi'r cleifion hynny sydd angen help i fwyta ac yfed neu'r rheini y mae angen cofnodi'r hyn a fwyteir ac a yfir ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys symbolau yn ymyl y gwely, fel cyllell a fforc, a'r Cynllun Glöyn Byw i'r cleifion hynny â phroblemau gwybyddol, a'r system hambwrdd coch a jygiau â chaeadau coch fel rhywbeth gweledol i brocio cof staff. Gwelsom y mecanweithiau gwahanol hyn ar waith yn ystod ein hymweliadau â'r wardiau, ond yn Ysbyty Treforys nid y cleifion a oedd angen help yn unig oedd yn cael yr hambwrddau coch.

47. Fel y trafodwyd ym mharagraff 34, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gweinyddesau mewn nifer o wardiau ac mae cynigion i ehangu'r gweinyddesau wedi'u cynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig. Yn gyffredinol, gwelsom o'n hymweliadau â'r wardiau fod y staff arlwygo hyn yn gwybod am anghenion maeth cleifion a'u dewisiadau deietegol, a byddent yn helpu i dorri bwyd ac agor deunydd pacio. Roeddent hefyd yn annog cleifion i fwyta, ac yn eu temtio â dewisiadau bwyd gwahanol os byddent yn gwrthod bwyta pryd bwyd poeth.
48. Yn ystod ein hymweliad, roedd gweinyddes ward Uned Asesu Meddygol Aciwt (AMAU) Treforys wedi derbyn gwobr yn ddiweddar gan y Bwrdd Iechyd am wasanaethau cymorth, am ei gwaith yn cefnogi anghenion maeth a dewisiadau deietegol cleifion. Roedd y cyrsiau bwyd yn cael eu gweini ar wahân ac roedd hyn yn helpu i gadw tymheredd y bwyd ac yn ei wneud yn fwy blasus. Nodwyd bod y gwasanaeth amser bwyd wedi'i drefnu'n dda. Roedd cleifion yn gwbl barod i dderbyn eu prydau, roedd nyrsys ar gael i gynorthwyo'r rhai a oedd angen help ac roedd yr awyrgylch yn dawel ac yn addas ar gyfer bwyta.
49. Mae **Arddangosyn 2** yn amlinellu'r gwahaniaethau a welwyd rhwng arferion amser bwyd ar draws y pedair ward. Mae ein harsylwadau yn seiliedig ar y gweithgareddau y disgwyliwyd i staff eu cynnal ac a oedd y camau hyn yn berthnasol i bob claf, y rhan fwyaf o'r cleifion, rhai cleifion neu ddim un ohonynt.

Arddangosyn 2: Camau allweddol a arsylwyd fel rhan o'r gwasanaeth amser cinio

Arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio	Treforys	Singleton	Castell-nedd Port Talbot	Tywysoges Cymru
Ward	UAA	7	E	18
Cleifion yn cael help i baratoi ar gyfer amser bwyd, gan gynnwys mynd i'r toiled, golchi dwylo ac eistedd i fyny neu godi allan o'r gwely	Pob un	Pob un	Rhai	Rhai
Ardaloedd/byrddau yn cael eu tacluso cyn gweini prydau	Pob un	Pob un	Pob un	Rhan fwyaf
Gwastraff clinigol yn cael ei glirio o ardaloedd/byrddau cyn y gwasanaeth bwyd	Pob un	Pob un	Pob un	Pob un
Staff arlwygo ward yn gwisgo dillad gwarchodol	Pob un	Pob un	Pob un	Rhan fwyaf
Tymheredd prydau yn cael ei gofnodi cyn dechrau'r gwasanaeth	Pob un	Pob un	Pob un	Pob un
Staff nyrsio yn helpu staff arlwygo ward/staff gwesty yn ystod y gwasanaeth	Pob un	Pob un	Pob un	Pob un
Cleifion sydd angen help i fwyta yn cael eu nodi'n rhwydd	Pob un	Pob un	Pob un	Pob un
Prydau yn cael eu gadael o fewn cyrraedd y cleifion	Pob un	Pob un	Pob un	Pob un

Arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio	Treforys	Singleton	Castell-nedd Port Talbot	Tywysoges Cymru
Ward	UAA	7	E	18
Cleifion yn cael help i dorri'r bwyd neu dynnu'r deunydd pacio ⁹	Pob un	Pob un	DIM ⁹	DIM ⁹
Cleifion sydd angen help yn cael help yn brydlon	Pob un	Pob un	Pob un	Pob un
Staff nyrsio yn goruchwyllo ac annog cleifion i fwyta gydol amser bwyd	Pob un	Pob un	Rhai	Pob un

Ffynhonnell: Arsylwadau Swyddfa Archwilio Cymru o wasanaethau amser cinio

- 50.** Yn ôl arolwg gweithredol Archwiliad Hanfodion Gofal y Bwrdd Iechyd, roedd cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn prydau bwyd mewn 93 y cant o ardaloedd clinigol, o'i gymharu ag 81 y cant yn 2013. Fodd bynnag, nododd arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru nad oedd cyfle i gleifion olchi eu dwylo'n gyson. Mae nifer o wardiau wedi prynu clytiau gwlyb i hwyluso hyn ac, yn ystod ein hymweliad ag AMAU Treforys, roedd y rhain yn ymyl pob gwely.
- 51.** Canfu'r archwiliad hefyd bod gan bron pob un o'r wardiau (98 y cant) systemau ar waith i alluogi teulu a ffrindiau i helpu gydag amser bwyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo hyn ac eleni mae wedi cyflwyno polisi ymweld hyblyg, a bellach mae'r amserau ymweld rhwng 11am ac 8pm. Dywedodd staff nyrsio wrthym eu bod yn croesawu ac yn annog teulu a ffrindiau i helpu cleifion yn ystod amser bwyd. Ar y wardiau y buom yn ymweld â nhw, gwelwyd cleifion yn cael help i fwyta gan deulu a ffrindiau.

Mae amserau bwyd gwarchoddedig wedi'u sefydlu'n dda ac mae amserau ymweld hyblyg yn galluogi teulu a ffrindiau i gymorth i helpu cleifion yn ystod amserau bwyd

- 52.** Mae polisi amser bwyd gwarchoddedig ar waith i gynorthwyo staff clinigol i weithredu a chadw at amserau bwyd gwarchoddedig. Yn 2014, canfuwyd bod y rhan fwyaf o'r staff yn ymdrechu i gadw at amserau bwyd gwarchoddedig i gleifion, ond yn ymarferol, roedd hyn yn gallu amrywio. Yn 2015, buom yn arsylwi unwaith eto ar sut y caiff prydau bwyd gwarchoddedig eu rhoi ar waith ar y pedair ward yr ymwelwyd â nhw ar draws y Bwrdd Iechyd. Roeddent yn cydymffurfio'n dda gydag elfennau allweddol y polisi. Ond nodwyd nad oedd unrhyw arwyddion ger y mynedfeydd i'r wardiau yn egluro'r amserau a diben amserau bwyd gwarchoddedig.

⁹ Mae DIM yn nodi bod y deunydd pacio wedi'i dynnu oddi ar bob eitem o fwyd cyn ei weini i'r cleifion.

-
53. Yn ystod ein gwaith maes, roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion yn cwrdd â nyrsys uwch a phrif nyrsys ward i egluro'r hyn a olygir wrth amserau bwyd gwarchoddedig yng nghyd-destun y polisi ymweld hyblyg newydd. Disgwylir i nyrsys uwch ddarparu arweiniad ar y mater hwn.
54. Mae angen defnyddio rhywfaint o ddoethineb o ran diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion sydd angen cymorth i fwyta neu ddefnyddio pedyll gwely/comodau ac o ran caniatáu i gleifion gael digon o amser i orffwyso o fewn yr oriau ymweld estynedig. Mae'r daflen wybodaeth i gleifion ac ymwelwyr am oriau ymweld hyblyg yn esbonio'n glir pam bod angen cyfyngu nifer ymwelwyr i ddau ar y tro, fel nad yw nifer yr ymwelwyr yn effeithio ar gleifion eraill. Er bod y polisi yn gymharol newydd pan wnaethom ein gwaith maes, roedd rhai o staff y ward yn ei chael hi'n her i reoli nifer yr ymwelwyr.
55. Ym mis Hydref 2015, gwnaeth y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) adolygiad o farn y cleifion a'r cyhoedd ar oriau ymweld hyblyg. Canfu fod 80 y cant o'r 172 o bobl a gafodd eu holi yn meddwl bod y drefn newydd yn dda iawn neu'n ardderchog ar y cyfan. Atebodd llai na dau y cant yn negyddol am y trefniadau'n gyffredinol. Roedd yr agweddau negyddol a nodwyd gan y mwyafrif yn cynnwys yr effaith ar breifatrwydd ac urddas rhai cleifion. Nododd llawer o'r ymatebwyr iddynt weld mwy na dau ymwelydd wrth wely.
56. Yr egwyddor sydd wrth wraidd yr oriau ymweld hyblyg yw rhoi'r cyfle i deulu a ffrindiau gymryd rhan yn y gwaith o gynorthwyo cleifion yn ystod amserau bwyd, ac ni ddylai hyn fynd yn groes i egwyddorion yr amserau bwyd gwarchoddedig, sef cyfnod pan na wneir unrhyw weithgareddau clinigol arferol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried canfyddiadau'r CIC a phenderfynu ar sut y gellid lleihau unrhyw ganlyniadau negyddol.

Mae profiad cleifion o amser bwyd yn dda ar y cyfan ac mae amrywiaeth briodol o ddewisiadau ar y fwydlen i'r mwyafrif o gleifion, ond mae rhywfaint o gwmpas i ehangu'r dewis o brydau bwyd

57. Mae Grŵp Cynllunio Bwydlenni aml-ddisgyblaethol y Bwrdd Iechyd, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o blith y cleifion, wedi gwneud gwelliannau i fwydlenni cleifion preswyl yn 2015. Mae'r gwaith wedi cynnwys cyflwyno un fwydlen wythnosol i gleifion preswyl, ac mae system archebu o'r gwely ar waith i gleifion unigol ym mhrif wardiau'r ysbytai. Er nad oedd cardiau archebu prydau bwyd cleifion unigol yn cael eu defnyddio, roedd cleifion yn gallu nodi eu dewisiadau ar gyfer y pryd bwyd nesaf yn dilyn y gwasanaeth blaenorol, h.y. ar ôl brechwast ar gyfer cinio. Ar un ward yr ymwelwyd â hi, roedd rhestr fwydlen wythnosol yn cael ei darparu i helpu cleifion ag anghenion deietegol diwylliannol penodol i ddewis bwydydd addas ymlaen llaw gyda'u teuluoedd.
58. Mae'r fwydlen gyffredinol i gleifion yn cynnwys 42 prif gwrs a 12 pwdin, yn ogystal â chawliau a brechdanau, sydd wedi'u cymryd o'r fframwaith bwydlenni Cymru gyfan. Mae'r bwrdd iechyd hefyd wedi datblygu un protocol ar gyfer archebu deietau therapiwtig a cheisiadau y tu allan i oriau i wella'r gwasanaeth i gleifion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wrthi'n datblygu opsiwn TG mewnlol ar gyfer archebu prydau bwyd nes

bydd system TG ar gyfer arlwygo yn barod gan GIG Cymru. Yn ystod ein gwaith maes, roedd cynlluniau ar waith i dreialu system electronig o archebu pryddau yn AMAU Ysbyty Treforys.

59. Cynhaliwyd adolygiad amlddisgyblaethol hefyd yn 2015, dan arweiniad therapyddion iaith a lleferydd, i asesu safon pryddau bwyd sy'n cael eu hansawdd wedi'i addasu, y mae eu hangen ar rai cleifion sy'n agored i niwed. Trwy weithio gyda chleifion a chaffael, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dewis cyflenwr newydd a nodir bod safon a dewis y pryddau wedi gwella.
60. Mae'n ymddangos fod amrywiaeth briodol o fwydlenni ar gael i gynnig dewis i'r rhan fwyaf o gleifion, ond mae'r bwydlenni yn seiliedig ar fathau hanesyddol o fwyd ar hyn o bryd ac mae sgôp o hyd i wella'r dewis i gleifion ymhellach. Mae hyn yn arbennig o wir am gleifion hŷn a allai ffafrio bwydydd bys a bawd, cleifion sydd yn yr ysbyty am gyfnod hir pan na fydd bwydlen wythnosol yn cynnig digon o ddewis o bosibl, ac yn yr ardaloedd gwasanaeth prin hynny lle gall nyrsys barhau i wneud swmp archebion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn sylweddoli hyn ac mae wrthi'n ystyried, er enghraifft, fwydlenni mwy tymhorol.

Mae costau arlwygo i gleifion wedi aros tua'r un faint, mae'r gost fesul pryd bwyd claf yn cymharu'n dda â chyrrff GIG eraill ac mae gwastraff bwyd yn is na'r targed cenedlaethol. Fodd bynnag, mae gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled

61. Yn 2010, roedd gwybodaeth ariannol am wasanaethau arlwygo yn wael ar y cyfan ac, os oedd y wybodaeth honno'n bodoli, roedd yn dangos amrywiadau sylweddol rhwng costau o fewn a rhwng sefydliadau'r GIG. Ychydig iawn o ysbytai oedd yn cynhyrchu digon o incwm i adennill holl gostau darparu gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion, ac ychydig iawn o gyrff y GIG oedd â pholisi cytunedig ar gymorthdal. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylid datblygu model clir ar gyfer asesu cost gwasanaethau arlwygo i gleifion a gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion. Yn 2012, cytunodd cyrrff y GIG yng Nghymru i gyflwyno model newydd ar gyfer asesu cost gwasanaethau arlwygo fel rhan o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), wedi'i ategu gan ddiffiniadau data diwygiedig. Ychydig iawn o gynnydd oedd wedi'i wneud o ran rhoi systemau arlwygo ysbytai ar gyfrifiadur, ac roedd y rhan fwyaf o'r systemau rheoli gwybodaeth arlwygo presennol yn dibynnu ar brosesau papur.
62. Ar yr un pryd, roedd cyrrff y GIG yn mabwysiadu mesurau i reoli costau gwasanaethau arlwygo. Roedd lle'n bodoli, fodd bynnag, i wneud mwy o ddefnydd o ryseitiau safonol wedi'u costio, gan gytuno ar lwfansau bwyd a diod ar gyfer cleifion, safoni contractau arlwygo lleol a lleihau lefelau gwastraff bwyd, a oedd yn annerbyniol o uchel. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai sefydliadau'r GIG geisio sicrhau nad

oedd mwy na 10 y cant o'r bwyd yn cael ei wastraffu. O ganlyniad, gosododd Llywodraeth Cymru darged o 10 y cant ar gyfer gwastraff bwyd trwy brydau heb eu gweini i'w gyflawni erbyn diwedd 2012-13.

Er bod cost gwasanaethau arlwyo i gleifion wedi amrywio ychydig, mae'r gost fesul pryd bwyd claf yn cymharu'n ffafriol â chyrrff eraill y GIG

- 63.** Yn 2010, roedd prosesau cynhyrchu bwyd y Bwrdd Iechyd yn amrywio a mecanweithiau gwahanol yn cael eu defnyddio i reoli cost, a golygai hyn ei bod yn anodd cymharu costau. Yn 2014, canfuwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi datblygu i ddefnyddio un dull o gynhyrchu bwyd ac arlwyo ar wardiau. Er nad oedd y trefniadau wedi'u safoni'n llawn ar draws pob safle, roedd ymgynghori'n digwydd i ystyried cyflwyno'r model coginio-rhewi yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Pan wnaethom ein gwaith dilynol yn 2015, nid oedd y Bwrdd Iechyd wedi dod i unrhyw benderfyniad eto o ran cyflwyno'r model coginio-rhewi. Roedd mwy o ddealltwriaeth o gost cynhyrchu a darparu bwyd, ac roedd y Bwrdd Iechyd yn gwneud defnydd llawn o ddata'r EFPMS i fonitro a meincnodi gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, cytunwyd ar y prisiau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion ac roedd cyfrif elw a cholled yn cael ei greu ar gyfer gwasanaethau pryd bwyd i bobl nad ydynt yn gleifion ym mhob ysbyty.
- 64.** Mae cyflwyniadau data EFPMS y Bwrdd Iechyd yn dangos amrywiadau yng nghost gwasanaethau arlwyo cleifion, gyda chostau'n lleihau chwech y cant, o £6.59 miliwn yn 2011-12 i £6.13 miliwn yn 2013-14, ond yn cynyddu pedwar y cant yn y flwyddyn ddilynol (**Arddangosyn 3**). Ledled Cymru, roedd cost gwasanaethau arlwyo cleifion bump y cant yn llai dros y tair blynedd. Yn y cyfamser, yn y Bwrdd Iechyd roedd nifer y prydau bwyd i gleifion y gofynnwyd amdanynt saith y cant yn llai (neu 168,000 o brydau) dros yr un cyfnod, o'i gymharu â lleihad o bedwar y cant ledled Cymru.


Arddangosyn 3: Costau gwasanaeth arlwyo i gleifion yn lleihau

Blwyddyn	Cost gwasanaethau arlwyo (£ miliwn)	
	Abertawe Bro Morgannwg	Cymru
2011-12	6.59	38.95
2012-13	6.13	37.26
2013-14	6.44	36.97

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Adroddiad ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau y GIG yng Nghymru 2012-13 a data ategol 2013-14

65. Mae'r data EFPMS ar gyfer 2013-14 yn dangos mai cost pob pryd i gleifion oedd £2.76 ar draws **holl** ysbytai'r Bwrdd Iechyd, sydd wedi codi o £2.64 yn 2011-12. Y gost am bob pryd i gleifion ar draws pob ysbyty yng Nghymru, gan gynnwys ysbytai cymunedol, oedd £3.29 yn 2013-14 gyda'r costau yn amrywio o £2.56 yn Felindre i £6.93 ym Mhowys. Mae **Arddangosyn 4** yn dangos bod y gost am bob pryd i gleifion mewn tri o'r pedwar ysbyty cyffredinol dosbarth ymhlith yr isaf yng Nghymru. Yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, roedd cost pob pryd i gleifion yn uwch na chyfartaledd yr ysbytai (£3.00) a'r ail uchaf yng Nghymru.

Arddangosyn 4: Mae cost pob pryd i gleifion ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot, sef yr ail uchaf



Ffynhonnell: Data ategol ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau y GIG yng Nghymru 2013-14

-
66. Yn 2010, roedd trefniadau cynhyrchu bwyd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n gryf ar systemau papur a meddalwedd taenlenni syml yn hytrach na datrysiad TG, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddibynnu ar y systemau papur hyn. Yn ei adroddiad cenedlaethol yn 2011, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau cyfrifiadurol ar gyfer gwybodaeth arlwy. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi datblygu achos busnes amlinellol i gael datrysiad arlwy TG cenedlaethol, ond araf iawn yw'r cynnydd hyd yma. Canfu'r archwiliad hwn bod cyrff y GIG, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, wedi rhoi sylwadau ar yr achos busnes amlinellol ac mae'n parhau i aros am benderfyniad. Fel mesur dros dro, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu dewis TG pwrpasol o fewn y sefydliad ar gyfer archebu prydau i gleifion. Roedd yn bwriadu treialu'r system ar Uned Derbyniadau Meddygol Aciwt Ysbyty Treforys pan oeddem yn gwneud ein gwaith maes.
67. Er mwyn helpu i roi safonau maeth ac arlwy 2011 ar waith, lanswyd yr AWMF ym mis Ionawr 2013. Mae ryseitiau o fewn y fframwaith bwydlenni wedi'u costio. Aeth pob bwrdd Iechyd ati i ariannu penodiad deietegydd caffael i weithio ym Mhartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru - Gwasanaeth Caffael i gefnogi datblygiad contractau caffael Cymru gyfan i gaffael nwyddau a bwydydd ar gyfer y prydau ar y fframwaith bwydlenni. Mae rheolwyr arlwy wedi bod yn gweithio'n ddiwyd gyda'r grŵp AWMF (gweler [paragraff 38](#)) a chyda'r Grŵp Cydgysylltwyr Maeth Cymru Gyfan, yn helpu i sicrhau bod gwaith maeth y Bwrdd Iechyd yn hysbysu, ac yn cael ei hysbysu gan ddatblygiadau cenedlaethol.

Mae lefelau'r gwastraff bwyd wedi lleihau ac maent bellach o dan y targed cenedlaethol


68. Yn 2010, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd systemau cyson ar waith i fonitro'r gwastraff bwyd heb ei weini ac nid oedd gwastraff ar blatiau yn cael ei gofnodi. Gwerthuswyd bod 13 y cant o fwyd heb ei weini'n cael ei wastraffu ar draws y Bwrdd Iechyd ar gyfartaledd, ac roedd hyn yn uwch na'r ffigurau a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd ar y pryd. Yn 2014, adroddwyd gennym fod y gwasanaeth arlwy yn adeiladu ar ei weithgareddau cyffredol i fesur gwastraff bwyd heb ei gyffwrdd ac yn deall y rhesymau amdano.
69. Awgryma data presennol yr EFPMS fod llai na phump y cant o'r bwyd yn cael ei wastraffu ar draws holl safleoedd y Bwrdd Iechyd, sy'n llawer is na'r targed cenedlaethol o 10 y cant. Canfu ein gwaith archwilio diweddaraf bod bwyd heb ei weini a gwastraff bwyd arall yn cael ei ddychwelyd i'r prif geginau ar droliâu, ac mae'n cael ei gofnodi yno. Caiff gwastraff bwyd heb ei weini ei gofnodi trwy'r strwythur arlwy gweithredol, ac mae rheolwyr arlwy yn cysylltu â'r wardiau pan fydd lefelau gwastraff yn ymddangos yn uchel.
70. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn mwydo'r holl wastraff bwyd, ond bydd hyn yn anghyfreithiol o 2017 ymlaen. Mae wrthi'n ystyried pa ddewisiadau fydd ar gael, ac yn amcangyfrif yn gyffredinol y bydd y gost o reoli gwastraff bwyd yn dod i tua £20,000 y

safe. Mae'r Bwrdd lechyd yn gweithio gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Nod WRAP yw anfon 30 y cant o'r gwastraff bwyd i dreulwyr anaerobig. Mae llawer o wastraff hylifol, e.e. cawl a chwstard sy'n swmpus iawn ac mae'n debygol o gostio'n ddrud i gael gwared ohono. Mae'r Bwrdd lechyd wrthi'n cydweithio â chynllunwyr bwydlenni i ystyried sut y gellid lleihau gwastraff, er enghraifft drwy ddefnyddio hufen yn lle cwstard.

71. O ddadansoddi data EFPMS 2013-14, gwelir bod prydau bwyd heb eu gweini wedi costio £151,000 i bedwar ysbyty cyffredinol dosbarth y Bwrdd lechyd. Mae hyn yn gyfartal â thri y cant o gyfanswm y costau arlwyyo, sy'n uwch na'r cyfartaledd i ysbytai yng Nghymru (1.8 y cant) (**Arddangosyn 5**).

Arddangosyn 5: Mae cost gwastraff bwyd, fel canran o'r holl gostau arlwyyo, ymhlith yr isaf a'r uchaf yng Nghymru ar draws pedwar ysbyty dosbarth y Bwrdd lechyd

Cost of waste as a percentage of total catering costs in 2013-14



Ffynhonnell: Data ategol ar Berfformiad Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2013-14

Mae gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled ac mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn cynyddu

- 72.** Yn 2010, nid oedd gan y Bwrdd Iechyd Bolisi Cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion, ond roedd disgwyl i'r gwasanaethau adennill eu costau. Roedd ei wasanaethau bwyty yn gwneud colled o £711,000. Ar y pryd, argymhellwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno polisi clir ar gymhorthdal er mwyn gosod fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion. Erbyn i ni wneud ein harchwiliad dilynol yn 2014, ac yn seiliedig ar fethodoleg y Bwrdd Iechyd ei hun o gyfrifo'r ffigurau, roedd y bwlch rhwng incwm a gwariant gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion wedi lleihau 20 y cant, o £745,000 yn 2010-11 i £595,000 yn 2012-13. Roedd y gwasanaeth arlwyo yn bwriadu cynnal dadansoddiad mwy manwl o ddosraniad y costau ar gyfer gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion. Ar y pryd, adroddwyd bod yr incwm o beiriannau gwerthu bwyd yn amrywio'n sylweddol ar draws safleoedd, o thua £9,000 yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i £137,000 yn Ysbyty Treforys. Nododd y gwasanaeth arlwyo fod angen gwneud rhagor o ran peiriannau gwerthu er mwyn sicrhau'r elw mwyaf posibl ohonynt, ac roedd yn bwriadu adolygu'r polisi peiriannau gwerthu a nifer y peiriannau gwerthu ar brif safleoedd. Roedd y gwaith hwn ar droed yn ystod ein gwaith maes yn 2015.
- 73** Yn ei gynllun gweithredu yn dilyn ein gwaith yn 2014, gosododd y Bwrdd Iechyd y nod o greu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm er mwyn sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion o leiaf yn adennill eu costau; neu, os na fyddant, dylai hyn fod o ganlyniad i bolisi cymhorthdal bwriadol. Mae polisi cymhorthdal wedi'i gymeradwyo a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol, er na welsom y polisi yn ystod ein hadolygiad yn 2015.
- 74.** Nid yw'r incwm a enillir o wasanaethau arlwyo'r Bwrdd Iechyd i bobl nad ydynt yn gleifion yn ddigon i adennill y costau gweithredu ac mae'r bwlch yn cynyddu, wrth i'r incwm leihau ([Arddangosyn 6](#)). Yn 2013-14, roedd cyfanswm yr incwm a enillwyd yn ddigon i adennill 73 y cant o'r £3.07 miliwn o gostau, sy'n gyfartal â chymhorthdal o £840,000. Ni wnaeth unrhyw un o sefydliadau'r GIG ledled Cymru adennill costau gwasanaethau arlwyo i bobl nad ydynt yn gleifion yn 2013-14, ond mae perfformiad y Bwrdd Iechyd o'i gymharu â pherfformiad byrddau Iechyd eraill yn waeth ([Arddangosyn 7](#)).


Arddangosyn 6: Mae'r bwlch rhwng incwm a chostau gwasanaeth arlwyo'r Bwrdd Iechyd i bobl nad ydynt yn gleifion yn cynyddu

Blwyddyn	Cost gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion (£)	Incwm a gynhyrchwyd	Bwlch canrannol rhwng costau ac incwm (%)
2011-12	2,907,187	2,350,588	-19
2012-13	3,090,912	2,344,195	-24
2013-14	3,071,493	2,231,360	-27

¹ Yn cynnwys costau rhentu peiriannau gwerthu

Ffynhonnell : Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad Perfformio Cyfleusterau Ystadau'r GIG yng Nghymru 2012-13 a data ategol 2013-14

Arddangosyn 7: Nid yw sefydliadau'r GIG yn cynhyrchu digon o incwm i adennill cost gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion; mae yna ddiffyg o 27 y cant mewn incwm yn y Bwrdd Iechyd



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata atodol 2013-14 Perfformiad Cyfleusterau Ystadau GIG yng Nghymru

-
- 75.** Ymddangosodd nifer o beiriannau gwerthu masnachol newydd pan agorwyd yr adran newydd i gleifion allanol yn Ysbyty Treforys ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r peiriannau hyn yn cynnig dewis a chyfleuster i gleifion, ymwelwyr a staff ac yn cynhyrchu incwm rhent i'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid oedd yr effaith lawn ar broffidioldeb a lefel y cymhorthdal oedd ei angen ar gyfer gwasanaeth arlwyo'r Bwrdd Iechyd i bobl nad ydynt yn gleifion wedi cael eu hasesu pan wnaethpwyd ein gwaith maes. Mae adolygu effaith ariannol y 'gystadleuaeth' oddi wrth fannau gwerthu preifat yn cael ei ystyried fel cam gweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddo yn 2015-16. Mae angen ystyried hyn wrth adolygu'r polisi cymhorthdal a'r targedau cynhyrchu incwm yn 2016.

Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar wasanaethau arlwyo a maeth mewn ysbytai yn gadarn ar y cyfan

- 76.** Yn 2010, ychydig iawn o strategaethau a chynlluniau cyfredol oedd ar waith i gyflwyno polisiâu cenedlaethol mewn perthynas ag arlwyo a maeth cleifion mewn ysbytai ac, mewn sawl un o gyrff y GIG, roedd angen i drefniadau gael eu cytgordio yn dilyn ad-drefnu'r GIG yn 2009. Roedd angen dull cynhwysfawr a chydgyssylltiedig i gael barn cleifion a theuluoedd er mwyn llywio cynlluniau a datblygiadau. Ychydig iawn o wybodaeth yr oedd byrddau'r GIG yn ei derbyn am ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau arlwyo a materion yn ymwneud â maeth cleifion. Nid oedd gwybodaeth o ganlyniad i sgrinio maethol yn cael ei chrynhoi i ddeall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau. Yn rhai o gyrff y GIG, gallai atebolrwydd gweithredol ar gyfer arlwyo a maeth fod yn gliriach.
- 77.** Yn y Bwrdd Iechyd yn 2010, yr oedd arweiniad proffesiynol clir ac atebolrwydd gweithredol ar gyfer arlwyo a maeth cleifion. Er nad oedd un fframwaith cynllunio a busnes gweithredol ar gyfer y gwasanaeth arlwyo, gwelwyd bod sawl dewis yn cael eu hystyried. Yn 2014, canfuwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd tuag at weithredu un dull o gynhyrchu bwyd ac wedi gwella'r model arlwyo ar wardiau mewn rhai ardaloedd, ond nid oedd y trefniadau wedi'u safoni'n llawn ar draws pob safle.
- 78.** Yn 2010, gwelwyd mai ychydig iawn o ystyriaeth yr oedd y Bwrdd yn ei rhoi i berfformiad gwasanaethau maeth ac arlwyo. Yn 2014, canfuwyd bod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ystyried materion arlwyo a maeth, ond nid oedd materion arlwyo a maeth yn amlwg iawn yng nghyfarfodydd y Bwrdd o hyd. Roedd prinder manylion a diffyg cryfder yn yr wybodaeth a ddaeth i law, yn ogystal â diffyg cytundeb ynghylch faint o ran y dylai'r Bwrdd ei chwarae yn y gwaith o fonitro perfformiad. Nodir y canfyddiadau o'n gwaith yn 2015 isod.

Mae'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyio yn sicrhau bod polisiau a safonau cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith, ond gallai newidiadau sefydliadol effeithio ar drefniadau cyfredol ac mae'r cyfrifoldeb gweithredol dros arlwyio yn llai eglur nag yr oedd bum mlynedd yn ôl

- 79.** Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion yw'r cyfarwyddwr lefel Bwrdd enwebedig sy'n bennaf gyfrifol dros faeth. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth, sy'n cynnwys gwasanaethau arlwyio, yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Strategaeth ac yn cael cymorth ganddo. Fodd bynnag, ni chaiff gwasanaethau cymorth eu nodi'n benodol yn nisgrifiad swydd y Cyfarwyddwr Strategaeth fel yn achos swydd ei ragflaenydd, y Cyfarwyddwr Cynllunio. Bydd chwe strwythur uned yn disodli'r strwythur cyfarwyddiaeth/ardal yn llwyr ym mis Mawrth 2016. Bydd angen penderfynu ar leoliad a llinellau adrodd y gwasanaethau cymorth o fewn y strwythurau a bydd angen mwy o eglurder ynghylch pwy sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros y gwasanaethau hyn.
- 80.** Mae'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyio yn 'dîm' uwch, amlddisgyblaethol sydd wedi'i sefydlu yn dda ledled y Bwrdd Iechyd. Mae'n gyfrifol am gydgyssylltu gofal maeth a gwasanaethau arlwyio, datblygu strategaeth a monitro'r perfformiad yn erbyn safonau a blaenoriaethau arlwyio a maeth allweddol. Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion yw cadeirydd y grŵp, sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhyng-gyfarwyddiaeth, ardal a chleifion. Ond bydd angen adolygu aelodaeth y Pwyllgor hwn a'i is-bwyllgorau yn sgîl strwythurau sefydliadol diwygiedig. Ceir cyfle hefyd i adolygu i ba raddau mae'r Pwyllgor hwn yn cyd-berthyn â grwpiau eraill sy'n canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â gofal pobl hŷn, fel cwmpïadau, hyfywedd meinwe a dementia, a sut maent yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu sicrwydd ar safonau gofal i bobl hŷn.
- 81.** Mae gan y Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyio bedwar is-grŵp, sef y Grŵp Maeth a Gwasanaeth Bwyd, y Grŵp Maeth Clinigol, y Grŵp Maeth Pediatreg a'r Grŵp Maeth Cymunedol. Yn 2014, argymhellwyd y dylid adolygu ac egluro'r trefniadau ar gyfer y grwpiau hyn er mwyn osgoi unrhyw ddryswch o ran cyfrifoldebau. O ganlyniad, adolygwyd cylch gorchwyl y grwpiau a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyio.
- 82.** Mae gan y pedwar is-grŵp gynllun gwaith blynyddol cytunedig i gefnogi'r camau yn y cynllun gweithredu maeth ac arlwyio blynyddol. Roedd blaenoriaethau cynllun gweithredu 2015 yn cynnwys:
- datblygu mwy o ryseitiau safonol a chael dadansoddiad maeth o fwydlenni cleifion preswyl;
 - cyflwyno un dull o gynhyrchu bwyd;
 - adolygu a rheoli goblygiadau cost contractau bwyd Cymru gyfan ac effaith ariannol cystadleuaeth;
 - datblygu safonau gwasanaeth bwyd ymhellach er mwyn hyrwyddo'r profiad bwyta gorau posibl i gleifion;
 - datblygu bwydlenni therapiwtig ymhellach;

-
- mynd i'r afael â'r angen am werth maethol bwydlenni a safonau bwyd i blant;
 - gweithio i sicrhau nad yw'r cyfnod rhwng swper nos a brecwast y bore canlynol yn fwy na 14 awr; a
 - chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae mecanweithiau ar waith i gael adborth gan gleifion ar arlwyo a maeth ac i weithredu ar yr adborth hwn

- 83.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod dda o ddulliau i gasglu adborth cleifion. Cesglir adborth, sydd wedi'i ddadansoddi a'i adrodd fesul thema, oddi wrth gleifion yn rheolaidd trwy'r 'prawf ffrindiau a theulu'¹⁰ a'r Fframwaith Profiad Cleifion Cymru Gyfan. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn meddalwedd arolygu SNAP 11, sydd, ynghyd â mynediad rhyngrwyd ar draws y Bwrdd Iechyd, yn darparu plattform da ar gyfer casglu a dadansoddi nifer fawr o ymatebion gan gleifion. Er enghraifft, cwblhaodd 4,861 o gleifion y prawf ffrindiau a theulu ym mis Medi/Hydref 2015, a gwnaeth 35 y cant ohonynt ei gwblhau yn electronig. Yn ogystal â hyn, mae rhybuddion e-bost wedi cael eu gosod ar SNAP 11 ar-lein i ysgogi ymateb lleol ar unwaith yn yr ardal glinigol os defnyddir geiriau neu frawddegau arbennig. Mae 'Maeth' yn air sy'n ysgogi ymateb.
- 84.** Mae'r Archwiliad Hanfodion Gofal, a gynhelir bob blwyddyn, yn gofyn am farn cleifion ar dri dangosydd sy'n ymwneud â darpariaeth a chymorth prydau bwyd. Arolygwyd 1,475 o gleifion ar gyfer archwiliad 2014. Roedd 89 y cant yn cydymffurfio'n gyffredinol â Safon 9, sy'n cynnwys bwyta ac yfed, sydd ychydig yn well nag arolygiad 2013. Gall pob ward/uned weld ei ganfyddiadau penodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.
- 85.** Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith arall ar brofiad cleifion, gan gynnwys:
- holiaduron arlwyo misol i gleifion ym mhob un o'r pedwar prif safle ysbyty i fonitro profiad cleifion o'r gwasanaethau arlwyo a gwesty ac i ddatblygu disgwyliadau gwasanaeth bwyd;
 - archwiliadau monitro prydau amlddisgyblaethol o holl broses y gwasanaeth bwyd, gan gynnwys tymheredd bwyd a safon y bwyd o ran blas a chyflwyniad;
 - gwiriadau ar hap gan nyrsys uwch er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau maeth a hydradu; a
 - monitro dangosfwrdd yn erbyn y safonau gofal i bobl hŷn o ran a yw cleifion yn teimlo y gallant ddewis beth y maent am ei fwyta ac yfed, ac yn derbyn cymorth os oes angen.

¹⁰ Mae'r 'prawf ffrindiau a theulu' yn gofyn i gleifion a gofalwyr a fyddent yn argymhell y gwasanaeth i ffrindiau a theulu, ac yn cofnodi'r sylwadau ar agweddau ar ofal neu wasanaeth.

-
- 86.** Ceir tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd yn ceisio gwella'r gwaith o gasglu adborth cleifion yn barhaus. Er enghraifft, mae'n ystyried ehangu'r archwiliadau monitro prydau bwyd i gynnwys monitro'r cymorth a ddarperir i gleifion, ac yn gweithio gyda'r tîm profiad cleifion i gael mwy o ymatebion gan gleifion trwy'r dangosfwrdd pobl hŷn.
- 87.** Caiff canlyniadau'r archwiliad hanfodion gofal, a chanfyddiadau gwiriadau ar hap y nyrs uwch ac arolygon o brofiad cleifion eu hadrodd i'r rhai ar lefel wardiau er mwyn caniatáu i ardaloedd clinigol gymryd camau unioni a dysgu gwersi, gan alluogi'r Bwrdd i gymharu ardaloedd a nodi unrhyw ardaloedd â phroblemau ar yr un pryd. Er mai ychydig iawn o gwynion penodol neu adborth negyddol a ddaeth i law ynghylch arlwyo a maeth cleifion, ceir tystiolaeth bod y rhain yn cael eu nodi a chamau'n cael eu cymryd i'w hunioni. Er enghraifft, roedd yr adroddiad ar adborth cleifion a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Rhagfyr 2015 yn cynnwys mater a oedd yn ymwneud â bwyd ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag ef.

Mae trefniadau corfforaethol da wedi'u sefydlu i fonitro'r llwybr gofal maeth, ond ni welir cymaint o wybodaeth am wastraff, cost ac ansawdd bwyd

- 88.** Mae'r pedwar Grŵp Maeth ac Arlwyo (y Grŵp Maeth a Gwasanaeth Bwyd, y Grŵp Maeth Clinigol, y Grŵp Maeth Pediatrig a'r Grŵp Maeth Cymunedol) yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyo a arweinir gan reolwyr. Mae'r pwyllgor hwn yn monitro'r perfformiad yn erbyn safonau a blaenoriaethau allweddol, a'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni cynllun gweithredu maeth ac arlwyo y Bwrdd Iechyd.
- 89.** Mae'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyo yn adrodd i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd, sy'n craffu ar ran y Bwrdd ac, yn ei dro, yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd, a chaiff papur ar faterion allweddol ei baratoi i'r Bwrdd ar ôl pob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Ym mis Ebrill 2015, cyflwynodd y Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyo ei adroddiad blynyddol ar gynnydd a'r wybodaeth ddiweddaraf ar faeth ac arlwyo cleifion i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Roedd y papur yn nodi'r gwelliannau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2014, y risgiau sy'n dal i fodoli, fel hyfforddiant staff, a'r blaenoriaethau allweddol i'w gweithredu yn ystod 2015. Caiff diweddariadau gan y Pwyllgor Llywio eu cynnwys yng nghynllun gwaith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn cadw golwg ar y gwelliannau a'r risgiau.
- 90.** Yn ogystal â'r adroddiadau gan y Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyo, mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael amrywiaeth o adroddiadau perthnasol yn rheolaidd sy'n helpu ei waith craffu ar faeth ac arlwyo. Mae'r rhain yn cynnwys:
- adroddiadau ar adborth cleifion ar arolygon y Fframwaith Profiad Cleifion Cymru Gyfan a'r profion 'ffrindiau a theulu' sy'n cael eu dadansoddi yn ôl thema;
 - y dangosfwrdd ar gyfer pobl hŷn;
 - adroddiadau'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) ar ei raglen fonitro, gan gynnwys ymweliadau ag ysbytai i fonitro'r bwyd a monitro profiadau cleifion ar wardiau;

-
- Adroddiadau Arolygu Cyfarwyddiaeth Gofal Iechyd Cymru;
 - Archwiliad Hanfodion Gofal; ac
 - adroddiadau sicrwydd ar drefniadau allweddol, fel diwygio'r asesiadau nyrsio integredig a'r ddogfennaeth nyrsio ddiwygiedig.
- 91.** Yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, mae aelodau annibynnol a gweithredwyr yn 'crwydro' o amgylch y wardiau yn rheolaidd gan ddefnyddio'r her 15 cam¹¹. Mae'r dull hwn yn cefnogi'r Pwyllgor yn ei waith craffu. Mae'n galluogi'r aelodau i drionglu'r wybodaeth a gaiff y Pwyllgor gyda'u harsylwadau eu hunain. Dywedwyd wrthym am 'grwydriad' a wnaed yn ddiweddar o amgylch Adran Argyfwng Ysbyty Treforys a roddodd hyder i'r aelodau bod staff yn ymwybodol o'r pwysigrwydd o ddarparu maeth a hydradu priodol, ac yn cymryd camau i gyflawni hyn.
- 92.** Mae'r monitro a'r adrodd cyfunol ar faeth ac arlwyo cleifion yn gynhwysfawr, yn arbennig o ran y lefel o fanylder sydd ar gael i'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyo. Serch hynny, ni chaiff yr adroddiadau amrywiol eu cyfuno yn rheolaidd, er y byddai hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch o'r gydymffurfiaeth â'r llwybr maeth cyflawn. Gwelir llai o wybodaeth hefyd am wastraff bwyd, costau gwasanaethau arlwyo a safon bwyd ar lefel gorfforaethol. Yn hytrach, caiff yr wybodaeth hon ei monitro a'i hadrodd ar lefel weithredol, yn yr un modd â chanlyniadau'r archwiliadau monitro prydau bwyd ac adborth cleifion ar wasanaethau bwyd. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd, fel cyrff eraill y GIG, wedi casglu gwybodaeth yn rheolaidd eto am sgrinio maethol er mwyn cael dealltwriaeth o nifer y cleifion a welir â phroblemau maeth pan gânt eu derbyn.

¹¹ Mae'r her 15 cam, a ddatblygwyd gan Sefydliad Arloesedd a Gwella y GIG, yn helpu i asesu ward o safbwynt y claf, yn cael dealltwriaeth o sut mae'r cleifion yn teimlo am y gofal a ddarperir a sut i wella hyder yn y gwasanaeth.

Atodiad 1

Dull archwilio

Nod yr archwiliad oedd ateb y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar waith o ran diwallu anghenion maethol cleifion a gwella eu profiadau o amser bwyd, rheoli costau arlwygo a chynllunio a monitro?' Cynhaliwyd amryw o weithgareddau archwilio ym mis Gorffennaf 2015 i ateb y cwestiwn hwn. Mae manylion y rhain isod.

Cyfweliadau ac adolygu dogfennau

Cynhaliwyd amryw o gyfweliadau ag unigolion allweddol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys swyddogion, Aelod annibynnol, cynrychiolydd cleifion a rheolwyr ward. Aethom ati hefyd i adolygu amryw o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau gan sefydliadau allanol perthnasol eraill ac ymateb y Bwrdd Iechyd i'r adroddiadau hyn.

Dadansoddi data

Aethom ati i ddadansoddi data'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) ar gyfer 2012-13 a 2013-14, sef y data diweddaraf. Cyflwynodd cyrff y GIG ddata 2014-15 i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Ystadau Arbenigol ddiwedd mis Mehefin. Bydd y data hwn ar gael ddiwedd mis Tachwedd 2015.

Arsylwadau ar Wardiau

Cynhaliwyd arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio ar bedair ward, a ddewiswyd gan y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol, Safonau ac Ymarfer Proffesiynol, i asesu:

- a oedd cleifion ac amgylchedd y ward yn cael eu paratoi ar gyfer amser bwyd;
- a oedd cleifion yn cael y pryd iawn;
- a oedd cleifion yn cael help i fwyta os oedd angen; ac
- a oedd y ward yn cydymffurfio ag amseroedd bwyd penodedig.

Ymwelwyd ag Uned Derbyniadau Meddygol Aciwt, Ysbyty Treforys; Ward 7, Ysbyty Singleton; Ward E, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot; a Ward 18, Ysbyty Tywysoges Cymru.

Adolygu nodiadau achos

Cynhaliwyd adolygiad o nodiadau achos ar bob ward lle arsylwyd ar y gwasanaeth amser cinio i asesu:

- a yw gwaith sgrinio maethol, gan ddefnyddio dull sgrinio dilys, yn cael ei wneud ar gleifion wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty

-
- gwybodaeth am bwysau, achos diweddar o golli pwysau anfwriadol, archwaeth presennol, deiet 'normal', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau bwyta neu yfed a phroblemau gydag iechyd a hylendid y geg, gan gynnwys dannedd wedi'i chofnodi;
 - a oedd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer y cleifion hynny y nodir bod ganddynt broblemau maethol, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu problemau o'r fath, ac a oedd cleifion y nodir eu bod yn wynebu risg yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad deietegol; ac
 - ai'r rheolwyr ward oedd wedi dewis y pum set o nodiadau achos a adolygwyd ar bob ward.

Atodiad 2

Argymhellion cenedlaethol a lleol

Mae **Tabl 1** yn amlinellu'r 14 o argymhellion lleol a amlinellwyd yn ein hadroddiad, a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd yn 2010 ar wasanaethau arlwyio ysbytai a maeth cleifion yn y Bwrdd Iechyd. Mae statws pob argymhelliad¹² wedi'i nodi yn **Nhablau 1, 2 a 3** hefyd.

Tabl 1 – Argymhellion lleol 2010

Argymhelliad	Statws ym mis Tachwedd 2015	
Trefniadau rheoli a chynllunio strategol		
A1	<p>Datblygu amrywiaeth o ddangosyddion ar gyfer monitro a meincnodi perfformiad y gwasanaethau arlwyio a risgiau posibl i'r gwasanaeth, a chyflwyno adroddiad arnynt i'r Bwrdd o leiaf yn flynyddol, er enghraifft mewn meysydd fel boddhad cleifion, materion yn codi o archwiliadau iechyd yr amgylchedd, gwastraff bwyd, perfformiad ariannol a'r amser mae'n cymryd i weithredu mentrau.</p> <p>Nodyn ar gynnydd: Mae canfyddiadau 2015 yn nodi bod perfformiad y gwasanaethau arlwyio yn cael ei fonitro ar lefel weithredol, ond ni chaiff y dangosyddion eu hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch na'r Bwrdd.</p>	A

¹² Mae (C) yn nodi bod yr argymhelliad wedi'i gyflawni, (A) yn dangos bod yr argymhelliad ar waith ond heb ei gwblhau eto, ac (D) yn nodi nad oes digon wedi'i gyflawni neu ddim byd wedi'i gyflawni.

Trefniadau rheoli a chynllunio strategol

A2	<p>Datblygu cynlluniau ar gyfer safoni arferion arlwygo ar draws yr ysbytai, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cytuno ar y modelau cynhyrchu a dosbarthu; • adolygu'r ryseitiau a ddefnyddir ym mhob ysbyty; • asesu maeth yr holl ryseitiau a bwydlenni; • safoni arferion wardiau yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys o ran cofnodi tymheredd bwyd cyn amser bwyd ac os oes angen, cofnodi tymheredd bwyd ar ddiwedd amser bwyd os oes cwynion fod prydau'n oer; • gorchwyllo amser bwyd yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys o bryd i'w gilydd er mwyn asesu ansawdd y gwasanaeth bwyd a gwella effeithlonrwydd os oes angen; • sefydlu amserlen o sesiynau blasu yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ac Ysbyty Treforys, sy'n debyg i'r un yn Ysbyty Singleton; • cynnwys staff nyrsio a chleifion yn y sesiynau blasu; a • gwneud mwy o ddefnydd o'r staff nyrsio mewn gwasanaethau bwyd yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot fel sy'n cael ei wneud yn Ysbyty Singleton. <p>Nodyn ar gynnydd: Nid oedd y gwaith o gyflwyno'r model coginio-rhewi yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2015 er mwyn darparu un dull o gynhyrchu bwyd wedi'i gwblhau, ond roedd yn cael ei ddatblygu fel blaenoriaeth ar gyfer 2015. Cwblhawyd pob cam gweithredu arall a oedd yn ymwneud â'r argymhelliad hwn.</p>	A
A3	<p>Ymestyn cylch gwaith y Grŵp Llywio Maeth, neu ei is-grwpiau, i gynnwys trosolwg o'r themâu a'r materion sy'n codi o arolygon boddhad cleifion, yr archwiliad Hanfodion Gofal ac Arolygon Cyffredinolrwydd Heintiau.</p>	C
A4	<p>Llunio proses i alluogi staff y wardiau i gyfrannu at y Grŵp Datblygu Bwyd a Maeth.</p>	C

Argymhelliad		Statws ym mis Tachwedd 2015
Caffael, cynhyrchu a rheoli costau		
A5	Ceisio safoni contractau arlwyio lleol am yr un nwyddau, neu nwyddau tebyg, h.y. un contract i bob ysbyty.	C
A6	Adolygu strwythurau prisio yn y bwytai i staff/ymwelwyr ac wrth wneud hynny, gwneud penderfyniad clir am lefel y costau sydd i'w hadennill o'r gwasanaethau arlwyio nad ydynt ar gyfer cleifion.	C
A7	Gweithio gyda staff arlwyio a staff nyrsio i wella'r broses o archebu bwyd i gleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys.	C
A8	Gwella trefniadau ar gyfer monitro gwastraff bwyd heb ei weini, yn enwedig yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Treforys a monitro'r rhesymau dros y gwastraff.	C
Dosbarthu bwyd i'r ward		
A9	<p>Sicrhau bod yr holl staff nyrsio sy'n gyfrifol am weini bwyd i gleifion yn cael hyfforddiant a chanllawiau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> rheoli dognau; diogelwch a hylendid bwyd sylfaenol; dillad diogelwch addas, gan gynnwys safoni lliw'r ffedog a ddefnyddir yn ystod amser bwyd; a'r angen i gydymffurfio â'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi tymheredd bwyd a beth i'w wneud os nad yw'r tymheredd yn cyrraedd y safonau gofynnol. <p>Nodyn ar gynydd: Mae canfyddiadau archwilio 2015 yn nodi bod angen parhau i gymryd camau i wella'r gydymffurfiaeth ag e-ddysgu a darparu hyfforddiant rheolaidd ar faeth cleifion a diogelwch bwyd.</p>	A
Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad		
A10	<p>Gwella cydymffurfiaeth â sgrinio maethol a chynllunio gofal drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> gofnodi gwybodaeth gynhwysfawr am iechyd maethol cleifion ar y ffurflen Asesu Unedig/Asesiad Nyrsio, gan gynnwys gwybodaeth am iechyd y geg; ystyried y rhesymau dros beidio â chydymffurfio gyda staff nyrsio; newid fformat offeryn monitro WAASP i ddangos yn glir beth yw sgôr pob elfen wrth ail-sgrinio cleifion; atgyfnerthu'r trothwy ar gyfer atgyfeirio cleifion am asesiad deietegol; ac atgoffa staff nyrsio am bwysigrwydd siartiau bwyd a diod Cymru gyfan a sut y dylid eu llenwi. 	C

Argymhelliad		Statws ym mis Tachwedd 2015
Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad		
A11	Sicrhau bod yr holl staff nyrsio'n gallu dod o hyd i wybodaeth am ofal maethol da yn hwylus, gan gynnwys y gwahanol fathau o ddeietau therapiwtig.	A
A12	Cymharu i ba raddau y mae nyrsys a deietegwyr yn cytuno (i ba raddau mae graddwyr yn cytuno â'i gilydd) wrth sgorio risg maethol gan ddefnyddio'r offeryn WAASP; os yw'r prawf yn dangos nad oes llawer o gytundeb, yna dylid darparu hyfforddiant gloywi ar ddefnyddio'r offeryn WAASP.	A ¹³
Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth		
A13	Gwella profiad y claf drwy: <ul style="list-style-type: none"> • barhau i hyrwyddo'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu rhwng grwpiau ehangach o staff; • sicrhau bod cleifion yn cael eu trin â pharch drwy weini pryddau bwyd ar blatiau lle bo'n briodol; • gweithio gyda chynrychiolwyr cyswllt cleifion a chleifion i asesu ansawdd gwasanaethau arlwygo; a • rhoi ystyriaeth i'r safbwyntiau llai ffafriol a fynegwyd gan gleifion a ymatebodd i'n harolwg, a mynd i'r afael â'r materion hynny. 	C
A14	Darparu gwybodaeth eglur am y gwasanaethau arlwygo a maeth i gleifion gan nodi'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • y trefniadau archebu bwyd yn y gwahanol ysbytai, gan gynnwys y defnydd o fwydlenni; • nodi bod byrbrydau ar gael a sut i'w harchebu; • pam mae cleifion yn cael eu hannog i beidio â dod â'u bwyd eu hunain i ysbytai; a • pham nad oes rhai eitemau bwyd ar gael drwy'r amser, fel llaeth sgim neu dost. <p>Nodyn ar gynnydd: mae gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd i gleifion sy'n dod i mewn i'r ysbytai a datblygwyd pecyn gwybodaeth newydd i gleifion yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2015. Mae'r wybodaeth i gleifion mewn ysbytai eraill yn parhau i amrywio.</p>	A

¹³ Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio offeryn arall heblaw am WAASP. Ni nodwyd unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb y sgorio rhwng deietegwyr a nyrsys yn ystod ein gwaith maes.

Mae **Tabl 2** yn amlinellu'r 26 o argymhellion cenedlaethol a amlinellwyd yn adroddiad 2011 yr Archwilydd Cyffredinol, a oedd yn berthnasol i gyrrff y GIG sy'n darparu gwasanaethau arlwyio i gleifion.

Tabl 2 – Argymhellion cenedlaethol 2011

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu		
A1b	<p>Dylai cyrrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu.</p> <p>Nodyn ar gynnydd: canfu gwaith 2015 fod pob claf yn cael ei sgrinio pan fydd yn cael ei dderbyn a chyflwynwyd dull asesu nyrsio integredig, gyda dogfennaeth ategol. Ond mae angen gwella cysondeb y cynlluniau gofal, yr ail-sgrinio a'r ddogfennaeth.</p>	A
A1c	<p>Dylai cyrrff y GIG archwilio cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd ar bob un o'u safleoedd a rhannu canlyniadau'r ymarferion monitro â phob grŵp staff perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau arlwyio a maeth cleifion.</p> <p>Nodyn ar gynnydd: canfu gwaith 2015 bod y bwrdd wedi archwilio'r gydymffurfiaeth â'r llwybr, ond dylid ystyried manteisio ar gyfleoedd i ddarparu adroddiadau mwy cyfunol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch er mwyn cefnogi'r gwaith craffu a sicrhau yn well.</p>	C
A1d	<p>Lle nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maeth, dylai cyrrff y GIG ganfod y rhesymau dros hyn, a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â'r broblem; dylai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff.</p> <p>Nodyn ar gynnydd: mae canfyddiadau 2015 yn nodi bod prosesau archwilio cydymffurfiaeth ar waith a chaiff y canlyniadau eu rhannu â wardiau, ond nid oes hyfforddiant ar waith.</p>	A

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu		
A1e	Dylai fod gan gyrff y GIG drefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd; dylai byrbrydau fod yn rhan o'r trefniadau hyn a dylai cleifion gael gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd.	C
A2a	Dylai cyrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod pob bwydlen a ddefnyddir yn eu hysbytai wedi cael ei hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr.	C
Gwella profiad cleifion o amser bwyd		
A3a	Sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion.	C
A3b	Adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini.	C
A3c	Parhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd.	C
Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo		
A4b	Dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw.	A
A5a	Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ryseitiau safonol wedi'u costio.	C
A5b	Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o lwfans bwyd a diod dyddiol i gleifion.	A
A5c	Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gontractau arlwyo lleol safonol ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion tebyg ym mhob un o'u hysbytai.	C
A6a	Dylid pennu targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd; fel canllaw, dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweinwyd yn fwy na 10 y cant.	C
A6b	Dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ar yr hyn sy'n bryd o fwyd heb ei weini, a dylai'r wybodaeth hon gael ei ddefnyddio i lunio cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol.	C

Argymhelliad	Statws ym mis Gorffenn af 2015
---------------------	---

Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo

A6c	Dylai'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff.	C
A6d	Dylai cyrff y GIG bwysleisio i'w staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai staff arlwyo a staff wardiau gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem.	C
A7a	Dylai cyrff y GIG bennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalw bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau.	A
A7b	Dylai cyrff y GIG fonitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol.	A

Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol

A8b	<p>Dylai cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau cyfoes sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisi cenedlaethol a sicrhau bod gwasanaethau arlwyo a maeth, hyd y gellir, wedi'u safoni ar draws sefydliadau'r GIG, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dwyn ynghyd nifer o wahanol fodolau gwasanaeth o dan un sefydliad.</p> <p>Nodyn ar gynnydd: Ni chwblhawyd y gwaith o gyflwyno'r model coginio-rhewi yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn 2015 i ddarparu un dull o gynhyrchu bwyd.</p> <p>Er y gwelwyd trefniadau clir a sefydledig ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn modd cydgysylltiedig trwy'r Pwyllgor Llywio Maeth ac Arlwyo, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiad Cleifion, bydd angen asesu effaith bosibl yr ailstrwythuro sefydliadol ar aelodaeth y pwyllgor llywio.</p>	A
-----	--	---

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol		
A8c	<p>Dylai cyrff y GIG sicrhau bod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwy a maeth wedi'u diffinio'n glir, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol, dylai fod trefniadau penodol ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig.</p> <p>Nodyn ar gynnydd: mae angen mwy o eglurder ar yr atebolrwydd gweithredol dros wasanaethau cymorth (gan gynnwys arlwy) ac effaith bosibl yr ailstrwythuro sefydliadol cyfredol ar wasanaethau cymorth.</p>	A
A9c	<p>Dylai cyrff y GIG sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau fel ffordd o reoli a monitro eu gwasanaethau arlwy a maeth.</p>	C
A10a	<p>Dylai cyrff y GIG ddatblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwy a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi EFPMS.</p> <p>Nodyn ar gynnydd: canfu archwiliad 2015 bod dull mwy cynhwysfawr o adrodd gyda'r rhan fwyaf o'r wybodaeth am faeth yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac eithrio gwybodaeth am gyllid a gwastraff. Mae'r wybodaeth am y rhain yn cael ei hadolygu gan y tîm rheoli cyfleusterau ac nid yw'n cael ei hintegreiddio gyda maeth. Mae cyfle hefyd i ystyried adrodd mwy cyfunol er mwyn cyflwyno darlun mwy cyflawn o berfformiad.</p>	A
A10b	<p>Dylai cyrff y GIG goladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwy a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn.</p>	D
A11a	<p>Dylai cyrff y GIG sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwy rhwng prif nyrsys ward a'r gwasanaeth arlwy.</p>	C

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol		
A11b	Dylai cyrff y GIG ddangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth.	C
A11c	Dylai cyrff y GIG bennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth.	C

Mae **Tabl 3** yn amlinellu'r pedwar argymhelliad lleol a nodwyd yn ein hadroddiad sy'n crynhoi canfyddiadau ein gwaith archwilio dilynol ar wasanaethau arlwyo ysbytai a maeth cleifion y Bwrdd lechyd yn 2014.

Tabl 3 – Argymhellion lleol 2014

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
A1	<p>Mae lle o hyd i wella'r fframwaith i ddatblygu, monitro a chofnodi materion yn ymwneud ag arlwyo a maeth. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • datblygu dangosyddion priodol i fonitro lefelau hydradu, symudedd a threfniadau bwydo pob person hŷn; • adolygu, egluro a symleiddio'r trefniadau ar gyfer grwpiau a phwyllgorau sy'n ymwneud ag arlwyo a maeth yn y Bwrdd lechyd er mwyn lleihau achosion o ddyblygu a sicrhau cyfathrebu effeithiol; • sicrhau bod arlwyo a maeth yn elfennau allweddol o drefniadau newydd y Bwrdd lechyd i ymgysylltu â chleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau; • datblygu fformat yr Adroddiad Maeth Blynyddol ymhellach, yn enwedig yn sgil argymhellion Ymddiried mewn Gofal; • adolygu'r wybodaeth y mae'r Bwrdd yn ei chael¹⁴ am arlwyo a maeth a sut mae'n rheoli perfformiad yn y meysydd hynny; • adolygu'r dull o gofnodi metrigau gofal wardiau er mwyn cynnwys y niferoedd cleifion gwirionedd bob amser. 	<p>C</p> <p>C¹⁵</p> <p>C</p> <p>C</p> <p>C</p> <p>A</p>

¹⁴ Yn 2015, nodwyd bod yr wybodaeth a ddarperir i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch at ddibenion craffu ac mae'r Pwyllgor, yn ei dro, yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd

¹⁵ Bydd angen ail-asesu yn 2016 yn dilyn newidiadau i'r strwythurau sefydliadol

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
A2	<p>Mae angen safoni a gwerthuso rhai agweddau ar y ddarpariaeth fwyd. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau, ar fyrder, bod asesiadau maethol o ryseitiau a bwydlenni lleol yn cael eu cynnal ac nad yw'r arian a ddefnyddir yn dod o unrhyw agweddau pwysig ar faeth cleifion; • sicrhau cydymffurfiaeth lawn â safonau ar gyfer mesur tymheredd bwyd ar wardiau; • adolygu effaith byrbrydau a brecwast wedi'i goginio ar faeth cleifion unigol, ac ar wastraff bwyd; ac • adolygu effaith ariannol y gystadleuaeth gan werthwyr bwyd preifat er mwyn • sicrhau bod y Bwrdd lechyd yn cael y gwerth gorau o ran yr incwm y mae'n ei wneud o'i wasanaethau ei hun. 	<p>C</p> <p>C</p> <p>C</p> <p>A</p>
A3	<p>Mae lefel cydymffurfio â'r pecyn e-ddysgu a gyflwynwyd yn 2011 er mwyn helpu i werthuso maeth cleifion yn siomedig o hyd, ac mae'n ymddangos bod darparu hyfforddiant diogelwch bwyd yn her. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod mwy o staff yn gwneud gwaith e-ddysgu ar faeth cleifion; ac • atgyfnerthu'r angen i staff wardiau, a staff eraill, gael hyfforddiant diogelwch bwyd. 	<p>A</p> <p>A</p>
A4	<p>Mae angen atgyfnerthu cydymffurfiaeth ag asesiadau maethol a threfniadau diogelu amseroedd bwyd yn barhaus ac mae angen gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion am fwyd ar draws y Bwrdd lechyd. Dylai'r Bwrdd lechyd wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adolygu gweithdrefnau asesu maeth cleifion yn sgil canfyddiadau'r adroddiad hwn; • atgyfnerthu gofynion o ran diogelu amseroedd bwyd ar bob ward yn sgil canfyddiadau'r adroddiad hwn; • gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion ar draws y Bwrdd lechyd am fwyd a maeth; a • chydweithio gyda Chyngor lechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg a'i Is-Bwyllgor Bwyd a Maeth, i fynd i'r afael â'r amrywiaeth o bryderon a ddaeth i'r amlwg yn ei waith, sy'n cael eu hamlygu yn yr adroddiad hwn. 	<p>C</p> <p>C</p> <p>A</p> <p>C</p>

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru